
# Astudiaeth Achos Pori Drwy Stori: Ysgol Gynradd Hafod

**Mae Ysgol Gynradd Hafod yn defnyddio cardiau Ble Mae'r Ddafad fel adnodd hwyliog a hyblyg i ymestyn dysgu. Mae'r cardiau hefyd yn offeryn asesu defnyddiol, a chânt eu rhannu gyda rhieni/gofalwyr er mwyn cefnogi dysgu yn y cartref.**

## Y Dull

Ysgol cyfrwng Saesneg yn Abertawe yw Ysgol Gynradd Hafod. Mae'r gymuned yn cynnwys nifer fawr o deuluoedd sy'n defnyddio Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Bydd yr athro Derbyn, Stuart Whiffin, yn defnyddio'r cardiau'n helaeth gyda'r plant cyn iddyn nhw fynd â set adref gyda nhw. Bydd plant yn mwynhau defnyddio'r cardiau, yn cyfarwyddo gyda'r gemau er mwyn eu dysgu i'w teuluoedd, ac maen nhw wrth eu boddau i dderbyn set iddyn nhw'u hunain!



**Plant yn chwarae ystod o gemau gyda'r cardiau, gan gynnwys paru a threfnu cardiau yn ôl meini prawf amrywiol.**

## Y Gemau

**'Dod o hyd i'r ddafad'**
Mae'r gêm hon yn datblygu iaith lleoliad, sydd yn arbennig o bwysig i'w ddisgyblion, ym marn Stuart, am fod Saesneg yn iaith Ychwanegol i gynifer ohonynt.

**'Parau'**
Bydd Stuart yn defnyddio'r cardiau i chwarae Chwap. Mae e hefyd yn sylwi fod y plant yn hoffi paru'r cardiau gan ddefnyddio rhif, lliw neu siâp yn ystod dewis rhydd. Fel arfer bydd dau neu fwy o blant yn gwneud hyn gyda'i gilydd ac yn siarad am ble i osod y cardiau.

**'Paru Numicon'**
Mae'r plant yn gyfarwydd â phatrymau Numicon a gallant drefnu'r cardiau o'r isaf i'r uchaf ac o'r uchaf i'r isaf. Ar gyfer plant ADY, mae defnyddio pegiau Numicon wedi'u gosod ar y dotiau'n ddefnyddiol ar gyfer trafodaeth 1–1 ac er mwyn cefnogi adnabyddiaeth o'r patrwm rhif. Bydd y plant yn gwirio'u hatebion gan ddefnyddio darnau Numicon.


**'Trefn Maint'**
Ar ôl gwylio'r plant yn dewis rhif, lliw a siâp i drefnu'r defaid, sylwodd Stuart nad oedd y plant yn defnyddio maint felly rhoddodd gychwyn ar gêm i ddatblygu'r elfen honno. GAn roi hanner y pecyn i'r plant (ei rannu i rifau 1–5 a 6–10 er mwyn i bob grŵp gael un ddafad o bob maint), gofynnir i'r disgyblion drefnu'r defaid yn ôl maint. Bydd Stuart yn annog y plant i ddisgrifio maint gan ddefnyddio geirfa ychwanegol (bach iawn, bach, mawr, enfawr) ac iaith gymharol (llai na, mwy na, lleiaf, mwyaf). Bydd y plant yn mwynhau troi'r cardiau drosodd ar ôl iddyn nhw drefnu'r defaid a darganfod eu bod yn y drefn iawn o ran rhif, gan ddisgrifio hyn fel 'hud a lledrith!'

**'Adio a Thynnu'**
Gwneir dwy gorlan i'r defaid o Lego. Rhoddir un cerdyn yr un yn y corlannau. Bydd y plentyn yn troi'r cardiau drosodd a naill a'i adio neu'n tynnu'r rhifau wrth ei gilydd. Os yw'r plentyn yn gywir, caiff gadw'r cardiau. Gall plant mwy galluog ac abl fynd i fyny ac i lawr o 20 gyda'r cardiau mewn egwyddor. Ar gyfer gwahaniaethu gellir lleihau nifer y rhifau drwy gyfyngu ar faint o gardiau a ddefnyddir.

**'Defaid Drwg'**
Mae'r defaid yn dianc ac yna'n ailymddangos mewn chwarae byd-bach, ar hyd y coridor, ar ddrysau o gwmpas yr ysgol ac yng ngardd yr ysgol! Bydd y plant yn chwarae rôl cŵn defaid, yn hel y defaid colledig, gan ddisgrifio ble byddan nhw'n dod o hyd iddyn nhw ac yn trefnu'r pecyn yn ôl i'r drefn gywir. Bydd defaid hefyd yn ymddangos mewn bagiau

ysgol a llyfrau darllen, gan roi syrpreis i rieni / gofalwyr. Mae Stuart yn adrodd fod plant yn cyffroi'n lân os byddan nhw'n dod o hyd i ddafad a bydd hefyd yn defnyddio'r gêm i dynnu sylw'r plant i weithgareddau newydd yn y ddarpariaeth, gan ofyn *'Ble mae'r defaid drwg yna nawr?'*

## Y Canlyniadau



**Mae Stuart yn arbennig o hoff o wybod fod gan bob un o'r plant set o gardiau gartref er mwyn iddo allu gosod tasgau yn y cartref sy'n atgyfnerthu dysgu yn yr ysgol.**

### Dysgu yn y Dosbarth

Mae cardiau Ble Mae'r Ddafad yn boblogaidd gyda'r plant ac mae Stuart yn canfod fod y gweithgareddau'n cefnogi'n gryf lawer o ddatganiadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae cynllunio Stuart yn ymgorffori'r cardiau yn y Ddarpariaeth Barhaus ac Uwch, fel rhan o'r gweithgareddau carwsél ac mewn tasgau dewis rhydd a thasgau canolbwyntio a gynlluniwyd. Ers defnyddio'r cardiau, nododd ddatblygiad yn yr ystod o ddefnydd annibynnol plant o iaith leoliadol.

### Offeryn Asesu

Mae Stuart wedi defnyddio cardiau Ble Mae'r Ddafad yn ogystal fel offeryn asesu yn ystod y broses drosglwyddo i'r Derbyn. Mae chwarae gemau mewn grwpiau bach yn gadael i blant ddangos adnabyddiaeth o rifau hyd at 5 a'u sgiliau trefnu'r rhifau hynny, ac i adnabod siapiau a lliwiau.

Oherwydd yr ystod o sgiliau y gall y cardiau'u harddangos, mae Stuart yn eu cael yn ddefnyddiol er mwyn gosod targedau ac adnabod y camau nesaf ac mae'n bwriadu defnyddio'r cardiau i asesu sgiliau sy'n gysylltiedig â Fframwaith Asesu Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar.

### Dysgu yn y Cartref

Cyn i'r plant fynd â'u setiau o gardiau'u hunain adref gyda nhw, roedd rhieni/gofalwyr eisoes yn chwilfrydig ac yn llawn diddordeb am fod y plant wedi bod yn siarad am y gemau. Unwaith y derbyniwyd y cardiau, b'r teuluoedd yn chwarae sawl un o gemau'r dosbarth gartref. Mae darganfod y 'defaid drwg' wedi atgyfnerthu dysgu mewn ffordd hwyliog a gafodd ei ymestyn i'r cartref ac mae Stuart hefyd yn atgoffa'r rhieni/gofalwyr i gefnogi dysgu gyda'r cardiau pan fydd yn gosod gweithgareddau cartref am rif, lliw, maint neu siâp.

Meddai Stuart, 'Rwy'n dwlu ar hyblygrwydd cardiau Ble Mae'r Ddafad/ Maen nhw'n adnodd gwerthfawr y mae'r plant wrth eu bodd yn eu defnyddio. Faswn i ddim eisiau bod heb fy setiau i yn y dosbarth.'

**Dod o hyd i fwy o syniadau yn ein fideos ac astudiaethau achos Pori Drwy Stori ychwanegol.**